Newyddion Ysgol Nefyn – Medi 2009

Dyma ni'n ôl yn yr ysgol wedi inni gael haf digon gwlyb a di haul.
Croeso i'r plant bach newydd i'r dosbarth Meithrin. Mae 18 ohonynt wedi cyrraedd Ysgol Nefyn. Croeso hefyd i 2 o blant Ysgol Morfa sydd wedi ymuno â ni ym Mlwyddyn 4 ac un disgybl o Ysgol Cymerau ym Mlwyddyn 3. Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi cynorthwyo i wneud wythnos y dathlu (Ysgol Nefyn yn 150 mlwydd oed) yn wythnos gwerth ei chael. Diolch i'r rhieni sydd wedi benthyca lluniau a.y.y.b inni a diolch i bawb sydd wedi rhoi oriau o'u hamser i ymuno â ni'n yr hwyl a'r sbri.
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Nefyn am ennill y wobr Aur yng Nghynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn. Llongyfarchiadau hefyd iddyn nhw am basio Cam 5 yng Nghynllun Ysgolion Iach. Byddwn nawr yn cychwyn ar Gam 6.
Diolch i'r rhieni am ein helpu drwy ddod â hen ddilladau i'r ysgol i'w hailgylchu. Casglwyd £296.00 mewn partneriaeth â 'Bag 2 School'.
Bu criw Bingo'r gegin ar nos Lun yn hael iawn gyda ni fel arfer ac hefyd criw'r Gyrfa Chwist a Bingo ar nos Fawrth.
Rydym fel staff yn gwerthfawrogi eu caredigrwydd yn fawr iawn.